# Ein hincwm a sut rydym yn ei wario

Dyma rai o'r prif benawdau i roi gwell dealltwriaeth i chi o sut yr ydym yn cael ein hariannu a lle rydym yn buddsoddi ein hincwm.


A chithau'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod sut mae'r Brifysgol yn buddsoddi'ch ffioedd dysgu a sut mae hyn yn cefnogi'ch llwyddiant chi. Mae'r Brifysgol yn elusen gofrestredig, ac mae ein hincwm yn dod o amrywiaeth eang o ffynonellau.  Bydd unrhyw gronfeydd sy'n weddill yn cael eu hail-fuddsoddi yn y Brifysgol, er mwyn gwella'r cyfleusterau yma.

Mae'r wybodaeth ariannol ar y dudalen hon yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023.  Cyfeirir ati yn y testun fel '2022-23'.

Er inni wynebu heriau sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn bennaf o ganlyniad i chwyddiant, ac er bod y Brifysgol yn ystod 2021-22 wedi llwyddo i ddychwelyd i sefyllfa weithredol normal ar ôl effeithiau COVID-19, yn 2022-23 adroddwyd colled weithredol o £2.5m.

**Sut mae'r Brifysgol yn cael ei chyllido?**

Mae'r Brifysgol yn cael ei chyllido o amrywiaeth eang o ffynonellau.  Daw'r rhan fwyaf o'n cyllid o'r ffioedd dysgu, sy'n cyfrannu tua 43% o'n hincwm, ac incwm grantiau ymchwil sy'n cyfrannu 17%. Rydym hefyd yn derbyn arian ar ffurf grantiau oddi wrth ein Cyngor Cyllido, cyrff cyhoeddus ac o'r hyn a gynhyrchir o'n gweithgarwch masnachol yn ein llety, y caffis, y siopau, a Chanolfan y Celfyddydau.





**Ffioedd Dysgu a Chontractau Addysg:** Ffioedd myfyrwyr o'r DU a'r UE, gan gynnwys y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a chyfanswm y ffioedd a dalwyd gan fyfyrwyr nad ydynt yn hanu o'r UE.
**Grantiau Cyrff Cyllido:** Grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.
**Grantiau Ymchwil:** Incwm ymchwil o'r DU a'r UE
**Incwm Arall:** Llety, Arlwyo, y Ganolfan Chwaraeon ac incwm cyffredinol arall

**I ble mae'r arian yn mynd?**

Yn Aberystwyth, mae’r cyfan o’ch incwm yn cael ei wario ar eich Prifysgol – gan gynnwys y dysgu a’r ymchwil, y llyfrgelloedd a’r labordai, yr adnoddau chwaraeon a’r mannau cymdeithasol.

Rydym yn deall bod ein myfyrwyr, wrth ddewis Aberystwyth, yn ymddiried ynom i ddefnyddio'r arian hwn mewn ffordd gyfrifol ac mewn ffyrdd a fydd yn cynnig profiad addysgol rhagorol i'w paratoi ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae’r ffordd y defnyddiwn yr arian a gawn hefyd wedi’i seilio ar ymrwymiad i sicrhau gwerth am arian ac i fuddsoddi mewn datblygiadau sydd o fudd i'n myfyrwyr.

Mae'r siart isod yn dangos i ble mae'r arian a dderbyniwn yn mynd.




**Adrannau Academaidd:** Yr holl gostau academaidd, darparu’r addysg a’r gefnogaeth academaidd
**Rhedeg y Brifysgol:** Gweinyddiaeth ganolog, cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau hanfodol eraill
**Cynnal a chadw’r campws**: Costau’r eiddo a’r ystadau, gan gynnwys yr adeiladau, y tiroedd a dibrisiant
**Cynorthwyo ein myfyrwyr yn ariannol:** Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth
**Arall:** Llog a chostau cyllid eraill, gan gynnwys llog pensiynau

Yn ogystal â'n galluogi i ddarparu cwricwlwm modern a ddysgir gan staff rhagorol, mae’ch ffioedd a'r arian a dderbyniwn o gyllid ymchwil a ffynonellau eraill hefyd yn cyfrannu at yr adnoddau sy’n eich cefnogi chi yn ystod eich amser yn Aberystwyth, gan gynnwys:

- Gwasanaethau’r llyfrgelloedd, y llyfrau a’r adnoddau ar-lein i gyd-fynd â’ch anghenion academaidd chi.

- Offer a chyfleusterau TG i gefnogi'ch dysgu, gan gynnwys buddsoddi mewn technolegau yn y mannau dysgu a recordio darlithoedd sy'n gwneud eich dysgu'n fwy hyblyg ac yn gyrru gwelliant parhaus yn eich profiad dysgu.
- Gwaith i sicrhau bod ein hystâd yn fwy hygyrch yn ogystal â darparu amgylchedd o ansawdd uchel i chi ddysgu a byw ynddo.
- Gwasanaethau i roi cymorth a chyngor i chi pan fydd eu hangen arnoch i'ch helpu i wneud y gorau o'ch amser yn Aberystwyth. Gwasanaeth gyrfaoedd i'ch helpu i benderfynu ar eich dewis yrfa ac i'ch cynorthwyo wrth i chi baratoi ar ei chyfer.
- Adnoddau chwaraeon a chyfleusterau cymdeithasol.

**Ein Prifysgol**

Yn Aberystwyth rydym yn ymfalchïo yn ansawdd uchel ein gwaith ymchwil a'r effaith y mae'n ei chael ar fywydau go iawn mewn meysydd fel iechyd pobl, diogelu cyflenwadau bwyd a'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau ymchwil yn cael eu hariannu drwy grantiau ymchwil ac mae ein myfyrwyr ar eu hennill oherwydd arbenigedd ein hymchwilwyr, wrth i'r arbenigedd hwnnw fwydo'n uniongyrchol i'r cwricwlwm. Rydym hefyd yn falch o'n cyfraniad i fywyd a diwylliant Ceredigion a Chymru.

Mae'r Brifysgol yn darparu adeiladau, cyfleusterau a chymorth ariannol i Ganolfan Gelfyddydau Aberystwyth, sefydliad sydd wedi ennill gwobrau, ac sydd y mwyaf o'i fath yng Nghymru.

Mae'r Brifysgol yn dal i fuddsoddi mewn addysg, adnoddau, a gwasanaethau cyfieithu cyfrwng-Cymraeg ac i ddatblygu llety a mannau cymdeithasol i gefnogi bywyd Cymraeg y Brifysgol.

**Sut wnaethom ni wario ein cyllid cyfalaf yn 2022-23?**

Rydym wedi ymrwymo i wella ein hystâd ac i wella profiad byw a dysgu ein holl fyfyrwyr ac i gyfrannu at eu llwyddiant. Er gwaethaf amgylchedd gweithredu heriol, mae'r Brifysgol yn parhau i glustnodi arian ar gyfer buddsoddi cyfalaf lle bo hynny'n bosibl. Rydym wedi ymdrechu i ategu arian gweithredol gostyngol â chronfeydd o strategaeth waredu gynhwysfawr a sicrhau grantiau a dargedwyd. Sefydliad nid-er-elw ydym ni, sy'n golygu nad ydym yn trosglwyddo unrhyw weddill ariannol i gyfranddalwyr na pherchnogion. Rydym yn defnyddio cronfeydd sydd ar gael i wella'r campws, cynnal ein hadeiladau hanesyddol, uwchraddio'r mannau dysgu, buddsoddi mewn meysydd astudio sy'n datblygu, ac i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'n myfyrwyr.

Rydym yn gweithio ar y cyd â'r myfyrwyr ar fuddsoddiadau mewn prosiectau cyfalaf mawr. Yn 2022-23:

- Fe wnaethom fuddsoddi £4.4m ym mhrosiect yr Hen Goleg a ddechreuodd yn 2021-22. Mae'r gweithgaredd wedi cynyddu'n sylweddol yn 2022-23. Mae'r prosiect yn cael ei gyllido gan gyllid allanol, codi arian a buddsoddiadau diffiniedig gan y Brifysgol.
- Fel rhan o ymgyrch y Brifysgol i gyrraedd sefyllfa sero-net, cwblhawyd y gwaith ar ein fferm solar. Comisiynwyd y fferm solar yn 2022-23.
- Fe wnaethom fuddsoddi £2.2m yn ein seilwaith a'n systemau TG.
- Defnyddiwyd cyllid grant i ariannu £2.7m o offer ymchwil.

- Buddsoddwyd £4.3m pellach ar draws ein hystâd a'n ffermydd i gynnal a gwella adeiladau a chyfleusterau presennol

**Ble caf i ragor o wybodaeth?**

Gallwch ddarllen ein Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022-23 yma.

Gallwch ddarllen ein Cynllun Ffioedd a Mynediad, sy'n dangos sut y defnyddiwn gyfran o’r ffioedd dysgu ar fentrau i agor drysau Addysg Uwch yn ehangach, i gynorthwyo myfyrwyr ac i ddarparu profiad rhagorol i’n myfyrwyr yma.